Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

| GWEITHDREFN APELIADAU ACADEMAIDD | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Awdur** | Rheolwr Ansawdd a Rheoleiddio | | |
| **Awdurdodwyd Gan:** | Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **I'w weithredu gan:** | Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr | | |
| **Cyfeirnod y Weithdrefn:** | AAP052020 | | |
| **Gweithdrefn a Ddisodlir:** | | | |
| **Rhif y Fersiwn:** | 3 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | 09.02.2023 | **Rhif Cofnod:** | 22.056 |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Yn syth |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2025 |
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. | | | ✓ |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Weithdrefn *(dilëwch fel sy'n briodol)* ar yr iaith Gymraeg a darpariaeth yr iaith Gymraeg yn y Brifysgol. | | | ✓ |

# Cynnwys

1 Cyflwyniad ..... 3
2 Cwmpas y Weithdrefn ..... 5
3 Cyflwyno Apêl ..... 7
4 Cam Ffurfiol ..... 8
5 Cam Adolygu ..... 11
6 Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA) ..... 16
7 Hyfforddiant, Monitro ac Adolygu ..... 16

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r weithdrefn hon wedi'i dylunio i alluogi myfyrwyr i apelio penderfyniad Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd os oes ganddynt bryderon bod penderfyniad/canlyniad y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd hwnnw wedi effeithio'n andwyol ar eu cynnydd neu statws academaidd.

1.2 Dim ond ar ôl i'r marciau a/neu ddyfarniad priodol gael eu cadarnhau gan Fwrdd Dyfarnu/Cynnydd ac mae'r canlyniadau wedi'u cyhoeddi a'u rhyddhau i'r myfyriwr, y gellir gwneud apêl academaidd.

1.3 Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno apêl academaidd ddilyn y weithdrefn o fewn y terfynau amser a benodwyd, yn unol ag adran 3 y weithdrefn hon.

1.4 Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu tystiolaeth ddigonol ac academaidd i gefnogi'r materion a godir mewn apêl academaidd. Mae diffyg tystiolaeth sylweddol yn debygol o effeithio ar lwyddiant yr apêl.

1.5 Os ceir swm sylweddol o achosion dan y weithdrefn hon, efallai y bydd angen i'r Brifysgol wyro oddi wrth y weithdrefn arferol er mwyn datrys achosion mewn modd effeithlon i leihau oedi.

1.6 Lle mae angen unrhyw gyfarfodydd ffurfiol dan y polisi a'r weithdrefn hon fe gynigir cyfle i'r achwynydd a'r ymatebydd ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod.

**Seiliau dros Gyflwyno Apêl Academaidd**

1.7 Gall myfyriwr gyflwyno apêl mewn perthynas â phenderfyniad Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd ar y seiliau canlynol:

- Roedd camgymeriadau neu anghysondebau gweithredol wrth gofnodi, trawsgrifio a/neu adrodd canlyniadau;
- Profwyd diffygion/ anghysondebau o ran cymhwyso'r Rheoliadau Academaidd yn ystod y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar y canlyniad a gofnodwyd;
- Profwyd diffygion/ anghysondebau o ran cymhwyso'r Rheoliadau Academaidd yn ystod y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar y canlyniad a gofnodwyd;
- Roedd y myfyriwr dan amgylchiadau esgusodol a allai fod wedi effeithio'n negyddol ar ei berfformiad ac mae rheswm da pam na chafodd yr amgylchiadau esgusodol eu cyflwyno yn unol â'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol, cyn y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd;

- Roedd diffygion/anghysondebau yng nghyfansoddiad y panel viva voce neu yng ngweinyddiad yr arholiad llafar (ar gyfer graddau Ymchwil) ac mae rheswm da pam na chafodd y diffygion/anghysondebau eu hadrodd cyn i'r bwrdd perthnasol wneud y penderfyniad.

1.8 Ni all myfyriwr gyflwyno apêl mewn perthynas â phenderfyniad Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd pan (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Mae'r apêl yn seiliedig ar farn academaidd h.y. mae'n cwestiynu'r penderfyniad a wnaed gan staff academaidd ar ansawdd y gwaith ei hun neu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i farcio'r gwaith (yn hytrach na'r broses farcio weinyddol). Mae'r penderfyniadau a wnaed gan yr arholwyr am werth academaidd darn o waith yn farn academaidd ac ni ellir eu gwyrdroi;

- Mae'r apêl yn seiliedig ar anfodlonrwydd â chanlyniad asesiad;

- Mae diffyg tystiolaeth ategol briodol;

- Cyflwynir yr apêl y tu allan i'r terfynau amser a benodwyd heb reswm da;

- Bernir bod yr apêl o natur wamal neu flinderus.

**Cyngor a Chymorth**

1.9 Anogir myfyrwyr i geisio cymorth a chyngor diduedd gan yr Undeb Myfyrwyr drwy anfon e-bost i: suadvice@glyndwr.ac.uk neu ffonio: 01978 293371. Mae manylion canolfan gynghori'r Undeb Myfyrwyr i'w gweld ar wefan yr Undeb Myfyrwyr: www.wrexhamglyndwrsu.org.uk.

1.10 Mae cymorth a chyngor ar gael i fyfyrwyr drwy'r wefan gymorth Mynediad i wasanaethau Bywyd Myfyrwyr a Champws. Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer holl ymholiadau ynghylch anghenion cymorth myfyrwyr, cyngor a gwybodaeth. Gall myfyrwyr gael mynediad at gefnogaeth a chymorth mewn ystod eang o feysydd a cheir rhagor o fanylion drwy Fewnrwyd y Myfyrwyr (Porth Myuni) yma: https://students.glyndwr.ac.uk/

**Nodau Gweithdrefnol**

1.11 Nodau Prifysgol Wrecsam yw sicrhau bod y weithdrefn apeliadau hon yn:

- Cael ei gweithredu'n deg;

- Cael ei chwblhau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl o fewn y terfynau amser cytunedig;

- Hygyrch i bob myfyriwr;
- Teg a chyson yn unol â chyfle cyfartal;

1.12 Gall fod angen gwneud addasiadau rhesymol i'r weithdrefn hon i ddiwallu anghenion unigol. Efallai y gweithredir addasiadau hefyd i gyflymu'r broses apeliadau, os bernir bod hyn er budd y myfyriwr.

1.13 Ni fydd cyflwyno apêl academaidd yn golygu bod myfyrwyr o dan anfantais ac anogir myfyrwyr i gyflwyno apeliadau heb ofni gwrthgyhuddiad.

1.14 Disgwylir i bob aelod ynghlwm â'r broses apeliadau ymddwyn yn rhesymol a theg tuag at ei gilydd, a thrin pob unigolyn a'r weithdrefn ei hun â pharch.

1.15 Mewn rhai achosion, efallai y bernir ei bod yn briodol i faterion a godir gan fyfyriwr o dan y Weithdrefn Apeliadau Academaidd hon gael eu hystyried o dan broses neu weithdrefn arall, er enghraifft y Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr. Gwneir penderfyniadau o'r fath gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai). Rhoddir gwybod i fyfyrwyr yn unol â hynny a byddant yn cael canllawiau o ran y broses neu'r weithdrefn arall sydd wedi cael ei rhoi ar waith.

## 2 Cwmpas y Weithdrefn

2.1 Mae gan y Weithdrefn Apeliadau Academaidd hon ddau gam: cam ffurfiol a cham adolygu.

2.2 Lle bo'n bosibl, bydd y terfynau amser a nodir yn y weithdrefn hon yn cael eu dilyn. Gall fod adegau, fodd bynnag, yn benodol yn ystod gwyliau'r Brifysgol neu pan fydd apeliadau yn codi materion cymhleth, lluosog, pan na fydd hyn yn bosibl. Os na ellir bodloni terfynau amser, rhoddir gwybod i fyfyrwyr y rheswm/rhesymau dros yr oedi a byddant yn cael eu diweddaru ar gynnydd yr apêl.

2.3 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam, gan gynnwys y rhai hynny sy'n astudio am raddau ymchwil a'r rhai hynny sy'n astudio'n gyfan gwbl ar-lein, drwy ddysgu o bell neu gyda sefydliadau partner.

**Mudiadau a Sefydliadau Partner**

2.4 Bydd gan fyfyrwyr sy'n astudio am ddyfarniad Prifysgol St Mary's, fynediad at Weithdrefn Apeliadau Prifysgol St Mary's.

2.5 Bydd gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n astudio am ddyfarniad Prifysgol Cymru fynediad at y weithdrefn hon, fodd bynnag cymeradwyir y penderfyniad terfynol ynghylch unrhyw apêl gan Brifysgol Cymru.

2.6 Bydd gan fyfyrwyr ymchwil ôl-radd sy'n astudio am ddyfarniad Prifysgol Caer fynediad at weithdrefn apeliadau berthnasol Prifysgol Caer:

- Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gyflwyno eu hapeliadau i Brifysgol Wrecsam, yn unol â'r weithdrefn a amlinellir yn adran 3 ac yna bydd yr apêl yn cael ei rhannu'n electronig â Phrifysgol Caer ar ran y myfyriwr;

- Os derbynnir apêl ar gyfer ymchwiliad gan Brifysgol Caer, cynhelir yr ymchwiliad ar y cyd gan enwebeion penodedig priodol Prifysgol Caer a Phrifysgol Wrecsam.

**Cynrychiolaeth**

2.7 Rhaid i apeliadau academaidd gael eu gwneud gan y myfyrwyr eu hunain fel rheol ac nid gan eraill yn gweithredu ar eu rhan, oni bai y darperir awdurdodiad ysgrifenedig a rhesymeg, fel rheol ar seiliau anghenion unigol.

2.8 Caniateir apeliadau grŵp o dan y weithdrefn hon. Argymhellir pennu llefarydd ar ran y grŵp a rhaid i bob aelod o'r grŵp gytuno'n ysgrifenedig i'r llefarydd weithredu ar eu rhan. Rhaid i bob parti allu dangos eu bod wedi cael eu heffeithio'n bersonol gan y materion a godir.

2.9 Mewn unrhyw gyfarfod sy'n rhan o'r weithdrefn hon, mae gan y myfyriwr yr hawl i gael cwmni myfyriwr cofrestredig, ffrind, perthynas, aelod o staff y Brifysgol (neu goleg/sefydliad Partner), cynghorydd Undeb y Myfyrwyr neu unrhyw unigolyn sy'n ofynnol i'w gefnogi gydag unrhyw anghenion unigol (e.e. gofalwr, llofnodwr). Gall yr unigolyn hwn siarad ar ran y myfyriwr, cyn belled â bod y myfyriwr yn bresennol hefyd ac mae'r Swyddog Ymchwilio / Cadeirydd perthnasol wedi rhoi caniatâd. Mae'n ofynnol i unrhyw bartïon sy'n cadw cwmni gydymffurfio â gofynion cyfrinachedd a gofynnir hefyd iddynt ymddwyn mewn modd parchus a chwrtais drwy gydol y gweithdrefnau.

2.10 Gall myfyrwyr ofyn am gael cwmni mewn cyfarfod ymchwilio a/neu wrandawiad dan y weithdrefn hon. Cydnabyddir mai dan rai amgylchiadau, gall y myfyriwr ofyn am gynrychiolaeth gyfreithiol mewn cyfarfod ymchwilio neu wrandawiad panel. Dan rai amgylchiadau prin o'r fath, dylid cyflwyno cais ysgrifenedig o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod/gwrandawiad, gan gynnwys enw'r unigolyn sy'n cael ei wahodd a'r rheswm dros y cais. Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar sail achos wrth achos gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai).

Os caniateir y cais, mae gan y Brifysgol yr hawl i gael ei chynrychiolydd cyfreithiol ei hun yn bresennol. Bydd pob parti yn ysgwyddo ei gostau cyfreithiol ei hun ac yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau'r cyfarfod a'r dogfennau angenrheidiol yn cael eu darparu i'r rheini sy'n mynychu gyda nhw.

2.11 Os yw'r Brifysgol yn derbyn nifer o apeliadau academaidd yn ymwneud â'r un mater neu fater tebyg, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddelio â'r achosion gyda'i gilydd a chymhwyso'r canlyniad (lle bo'n briodol) i bob achos. Rhoddir gwybod i fyfyrwyr am y penderfyniad i brosesu'r achosion gyda'i gilydd; gall myfyrwyr ofyn i'w hachos gael ei brosesu a'i ystyried yn unigol serch hynny.

**Cyfrinachedd**

2.12 Cedwir pob cofnod yn ymwneud ag apêl academaidd yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Rhoddir sylw dyledus i gyfrinachedd pob parti, gyda gwybodaeth yn cael ei rhannu at ddiben ymchwilio i apêl yn unig. Drwy gyflwyno apêl, mae'r myfyriwr yn cydsynio i ddatgelu, storio a rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r gŵyn, ar bob cam o'r weithdrefn hon. Os yw'r myfyriwr yn penderfynu peidio â chydsynio, gall effeithio ar allu'r Brifysgol i ystyried yr apêl academaidd yn llawn. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir at ddibenion monitro neu adrodd yn ddienw.

## 3 Cyflwyno Apêl

**Datrysiad Cynnar**

3.1 Anogir myfyrwyr i godi pryderon yn anffurfiol â thîm y rhaglen berthnasol cyn cyflwyno apêl academaidd. Anogir hyn yn benodol mewn achosion lle mae myfyrwyr yn credu bod tystiolaeth glir o wall gweinyddol y gellid ei unioni heb yr angen am gyflwyno apêl ffurfiol.

**Terfynau amser**

3.2 Dim ond yn dilyn cyhoeddiad y marciau a/neu ddyfarniad, fel y cadarnhawyd gan y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd y gellir cyflwyno apêl.

3.3 Rhaid cyflwyno apeliadau academaidd ar y Ffurflen Apelio briodol o fewn **10 diwrnod gwaith** i gyhoeddi'r canlyniadau.

3.4 Dim ond drwy eithriad y bydd apeliadau academaidd a gyflwynir y tu allan i'r terfyn amser 10 diwrnod yn cael eu hystyried, lle mae'r myfyriwr yn darparu tystiolaeth o reswm da dros yr oedi. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai penodedig addas) yn pennu a ellir dechrau'r proses apelio ai peidio.

**Ffurflenni Apelio a Thystiolaeth Ategol**

3.5 Dylid cyflwyno Ffurflenni Apelio Academaidd wedi'u cwblhau a thystiolaeth ategol fel atodiadau e-bost i academic.appeals@glyndwr.ac.uk. Mae’n rhaid i gyflwyniadau e-bost fodloni’r gofynion canlynol:

- Dylid atodi tystiolaeth ddogfennol a ddarperir i gefnogi apêl academaidd (er enghraifft llythyrau, nodiadau meddygol, lluniau etc...) i'r e-bost fel ffeiliau PDF lliw wedi'u sganio'n llawn.

- Rhaid i fyfyrwyr allu darparu'r dystiolaeth ddogfennol wreiddiol os gofynnir iddynt wneud hynny gan y Brifysgol; bydd methu â gwneud hyn yn gwneud yr apêl academaidd yn ddi-rym ac yn annilys.

3.6 Pe bai cyflwyno ar ffurf arall yn ofynnol, cynghorir myfyrwyr i gysylltu ag academic.appeals@glyndwr.ac.uk i drafod gofynion ac opsiynau sydd ar gael.

3.7 Os nad yw'r myfyriwr yn gallu darparu'r holl ddogfennaeth ategol ar adeg cyflwyno'r apêl academaidd, mae'n ofynnol i'r myfyriwr nodi'r rheswm/rhesymau dros yr oedi'n glir a rhaid darparu'r ddogfennaeth ychwanegol ar wahân, fel rheol o fewn **10 diwrnod gwaith** i ddyddiad cyflwyno.

3.8 Rhaid i'r Apêl Academaidd nodi'n glir y seiliau dros wneud yr apêl (gweler adrannau 1.5 ac 1.6) a pha ganlyniad a geisir.

3.9 Os yw'r dystiolaeth ategol yn cael ei chyflwyno mewn iaith arall heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg, cyfrifoldeb y myfyriwr yw trefnu cyfieithiad gan gyfieithydd cymwys a bydd terfynau amser gweithdrefnol yn cael eu haddasu yn unol â therfynau amser cyfieithu.

## 4 Cam Ffurfiol

4.1 Yn dilyn cyflwyno apêl academaidd, bydd myfyrwyr yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o fewn **10 diwrnod gwaith** yn nodi:

**a)** A yw'r apêl wedi cael ei gwrthod a'r rheswm/rhesymau pam;

neu

**b)** A yw'r apêl wedi bodloni'r meini prawf gofynnol a'i derbyn i Gam Ffurfiol y weithdrefn hon.

Os derbynnir i'r Cam Ffurfiol, bydd yr ymateb ysgrifenedig hefyd yn amlinellu'r camau nesaf (gweler adran 4.4) a'r terfynau amser disgwyliedig.

4.2 Er mwyn cael ei derbyn i'r Cam Ffurfiol, dylai'r apêl academaidd fodloni'r holl feini prawf perthnasol fel rheol:

- Cyflwynwyd yr apêl o fewn y terfynau amser cywir (adrannau 3.2, 3.3 a 3.4);
- Cyflwynwyd ar y ffurflen gywir gyda'r dystiolaeth ategol gywir (adrannau 3.5, 3.6 a 3.7);
- Ystyrir y seiliau y cyflwynwyd yr apêl arnynt yn gymwys ac mae'r canlyniad a geisir wedi'i nodi'n glir (gweler adrannau 1.5, 1.6 a 3.8).

4.3 Cwblheir apeliadau academaidd a dderbynnir i'r Cam Ffurfiol o fewn 20 diwrnod gwaith fel rheol i ddyddiad yr hysbysiad ysgrifenedig (fel yr amlinellir yn adran 4.2). Os, wrth i'r achos fynd rhagddo, y sylwir nad yw'r terfyn amser 20 diwrnod yn bosibl, cynghorir y myfyriwr yn ysgrifenedig, o'r rheswm dros yr oedi a'r terfyn amser diwygiedig y disgwylir cwblhau'r achos.

**Dechrau'r Cam Ffurfiol**

4.4 Ar ôl cael ei derbyn i'r Cam Ffurfiol, mae'r opsiynau canlynol ar gael mewn perthynas â'r apêl academaidd:

- Os yw'r apêl academaidd yn codi ceisiadau am amgylchiadau esgusodol newydd, byddant yn cael eu dwyn i sylw'r Panel Amgylchiadau Esgusol a'u prosesu yn unol â hynny.
- Os nad yw'r cais yn seiliedig ar Amgylchiadau Esgusodol, penodir Swyddog Ymchwilio gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai penodedig addas), i adolygu'r materion a godir a chymhwyso canlyniad cymesur ac addas. Bydd y Swyddog Ymchwilio penodedig yn deg i'r myfyriwr ac unrhyw dîm rhaglen / aelodau Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd cysylltiedig.

**Ymchwiliad**

4.5 Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cynnal ymchwiliad fel y bernir yn briodol ganddo i'r mater(ion) a godir yn yr apêl academaidd. Gall ymchwiliadau o'r fath gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Cwestiynu cofnod y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd perthnasol;
- Ymgynghori â Chadeirydd y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd neu arholiad viva voca;

  Ymgynghori â thîm y rhaglen a/neu unrhyw aelodau perthnasol eraill o staff y Brifysgol;

- Ymgynghori â'r myfyriwr sy'n gwneud yr apêl academaidd, mae adrannau 2.9 a 2.10 yn amlinellu hawliau'r myfyriwr i gynrychiolaeth yn ystod cyfarfodydd ymgynghori;

Bydd gan y Swyddog Ymchwilio'r awdurdod i newid y seiliau dros apelio a dulliau ymchwilio.

4.6 Bydd nodiadau yn cael eu cymryd fel cofnod o unrhyw gyfarfodydd a gynhelir fel rhan o'r broses ymchwilio. Gall y cyfarfodydd fod wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau digidol megis galwadau dolen fideo. Os yw'r myfyriwr yn ei chael hi'n anodd mynychu wyneb yn wyneb e.e. oherwydd anabledd neu gyfrifoldebau gofalu, gellir gwneud trefniadau i'r myfyriwr gymryd rhan drwy fideo gynadledda.

4.7 Mae gan y Swyddog Ymchwilio'r awdurdod i ymgynghori ag ail aelod o staff priodol ynghylch y dull ymchwilio, canfyddiadau a chanlyniadau posibl, lle mae'n gymesur gwneud hynny. Bydd unrhyw sylwadau / ystyriaethau'r ail aelod o staff yn cael eu cofnodi a chadw fel rhan o gofnod yr achos.

**Safle Academaidd y Myfyriwr**

4.8 Yn ystod y broses ymchwilio, caniateir i fyfyrwyr barhau ar eu rhaglen astudio hyd nes y cyrhaeddir penderfyniad, fel nad yw'r myfyriwr o dan anfantais. Gall myfyrwyr:

- Fynychu cyfarfodydd, tiwtorialau a sesiynau wedi'u hamserlennu eraill;
- Cymryd rhan mewn asesiadau a chasglu data ar gyfer prosiectau ymchwil/traethodau hir;
- Mynychu lleoliadau gwaith yn ôl disgresiwn Arweinydd y Rhaglen;
- Parhau ar, a chwblhau'r modiwl ar-lein nesaf os yw'r myfyriwr eisoes wedi cofrestru ar y modiwl hwnnw (**perthnasol i fyfyrwyr ar-lein yn unig**).

Hyd nes y mae'r achos wedi gorffen, <u>ni</u> chaniateir i fyfyrwyr:

- Gofrestru ar lefel nesaf y rhaglen;
- Derbyn unrhyw ganlyniadau (ac eithrio unrhyw fyfyrwyr ar-lein sydd eisoes wedi cofrestru ar y modiwl ar-lein nesaf).

**Canlyniad**

4.9 Yn dilyn cwblhau ymchwiliad, rhoddir gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig o ganlyniad y Cam Ffurfiol ac unrhyw gamau gweithredu dilynol i'w cymryd fel rhan o gamau adferol, os cadarnheir yr apêl.

4.10 Os aethpwyd i'r afael â'r achos drwy adolygiad gan y Panel Amgylchiadau Esgusodol (gweler pwyntiau bwled un a dau, adran 4.4), rhoddir gwybod i'r myfyriwr yn ysgrifenedig am ganlyniad y Cam Ffurfiol.

4.11 Bydd y canlyniad hefyd yn manylu pa opsiynau sydd ar gael os yw'r myfyriwr yn parhau'n anfodlon, gan gynnwys hawl y myfyriwr i fynd â'r apêl academaidd i'r Cam Adolygu, y seiliau dros allu gwneud hyn, y terfynau amser perthnasol ac ymhle a sut i gael gafael ar gymorth.

4.12 Os bodlonir un neu fwy o'r seiliau a nodir yn adran 5.1 isod, gall y myfyriwr ofyn i fynd ymlaen i'r Cam Adolygu o **fewn 10 diwrnod gwaith** i ddyddiad llythyr canlyniad y Cam Ffurfiol. Nid yw anfodlonrwydd â'r canlyniad neu'r datrysiad a gynigir ar y Cam Ffurfiol yn sail ddigonol dros ofyn am adolygiad.

4.13 Os nad oes gan y myfyriwr seiliau digonol a/neu mae'n penderfynu peidio â gofyn i fynd ymlaen i'r Cam Adolygu, yna ystyrir bod y gweithdrefnau mewnol wedi cael eu cwblhau.

4.14 Os oes, o ganlyniad i'r ymchwiliad, dystiolaeth y gallai anghysondebau gweithdrefnol (neu eraill) fod wedi effeithio ar fwy na'r myfyriwr o dan sylw, cyflwynir y dystiolaeth gan y Swyddog Ymchwilio i Gadeirydd y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd a gellir gwneud newidiadau i benderfyniad gwreiddiol y Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd (mewn ymgynghoriad ag unrhyw arholwyr allanol perthnasol).

## 5 Cam Adolygu

**Seiliau dros Ofyn am Fynd Ymlaen i'r Cam Adolygu**

5.1 Gall myfyriwr ofyn am fynd ymlaen i'r cam adolygu ar y seiliau canlynol:

- Mae anghysondeb materol wedi bod ar Gam Ffurfiol y weithdrefn sydd wedi effeithio'n amlwg ar y canlyniad;
- Mae tystiolaeth na ystyriwyd yr holl ffeithiau perthnasol yn ystod y Cam Ffurfiol;
- Mae tystiolaeth newydd a allai effeithio ar ganlyniad y Cam Ffurfiol ac mae rheswm da a rhesymol pam na chafodd yr wybodaeth hon ei darparu ar adeg Cam Ffurfiol y weithdrefn.

**Terfynau amser**

5.2 Rhaid cyflwyno ceisiadau i fynd ymlaen i'r Cam Adolygu ar y Ffurflen Apelio briodol o fewn **10 diwrnod gwaith** i'r dyddiad ar lythyr canlyniad y Cam Ffurfiol.

5.3 Dim ond drwy eithriad y bydd ceisiadau i fynd ymlaen i'r Cam Adolygu a gyflwynir y tu allan i'r terfyn amser 10 diwrnod yn cael eu hystyried, lle mae'r myfyriwr yn darparu tystiolaeth o reswm da dros yr oedi. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai penodedig addas) yn pennu a ellir mynd i'r afael â'r apêl y tu allan i'r terfyn amser.

**Cyflwyno Cais i Fynd Ymlaen i'r Cam Adolygu**

5.4 Dylid cyflwyno Ffurflenni Apelio Academaidd Cam Adolygu wedi'u cwblhau fel atodiad e-bost i academic.appeals@glyndwr.ac.uk, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol. Rhaid i gyflwyniadau e-bost fodloni'r gofynion canlynol:

- Dylid atodi tystiolaeth ddogfennol a ddarperir i gefnogi cais i fynd ymlaen i'r Cam Adolygu i'r e-bost fel ffeiliau PDF lliw wedi'u sganio'n llawn;
- Rhaid i fyfyrwyr allu darparu'r dystiolaeth ddogfennol wreiddiol os gofynnir iddynt wneud hynny gan y Brifysgol; bydd methu â gwneud hyn yn gwneud y cais am adolygiad yn ddi-rym ac yn annilys.

- Pe bai cyflwyno ar ffurf arall yn ofynnol, cynghorir myfyrwyr i gysylltu ag academic.appeals@glyndwr.ac.uk_i drafod gofynion ac opsiynau sydd ar gael.

5.5 Rhaid i'r cais i fynd ymlaen i'r Cam Adolygu nodi'n glir y seiliau dros wneud y cais (gweler adran 5.1) a pha ganlyniad a geisir.

5.6 Bydd y cais i fynd ymlaen yn cael ei adolygu gan y Brifysgol o fewn **7 diwrnod gwaith**, er mwyn asesu cymhwystra ar gyfer mynd ymlaen. Dylai'r cais fodloni'r holl feini prawf perthnasol fel rheol:

- Cyflwynwyd o fewn y terfynau amser cywir (adran 5.2);

- Cyflwynwyd ar y ffurflen gywir gyda thystiolaeth ategol berthnasol (adran 5.4);

- Ystyrir y seiliau y gwneir y cais i fynd ymlaen arnynt yn gymwys ac mae'r canlyniad a geisir wedi'i nodi'n glir (gweler adrannau 5.1 a 5.5).

5.7 Yna bydd myfyrwyr yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig yn nodi:

**a)** Nad oes seiliau ar gyfer adolygiad wedi'u sefydlu a'r rheswm/rhesymau pam;

neu

**b)** Fod seiliau ar gyfer adolygiad wedi'u sefydlu, ac os felly bydd Panel Adolygu yn cael ei ymgynnull i ystyried y mater ymhellach.

Os derbynnir i'r Cam Adolygu, bydd y Swyddog Ymchwilio yn cael gwybod (fel sy'n berthnasol) y bydd yn ofynnol iddo gyflwyno ei ganfyddiadau a'i ganlyniad o'r Cam Ffurfiol i Wrandawiad y Panel Adolygu drwy gyfrwng adroddiad ysgrifenedig.

**Panel Adolygu**

5.8 Fel rheol, bydd Panel Adolygu yn cael ei ymgynnull o fewn **20 diwrnod gwaith** i'r achos yn cael ei dderbyn i'r Cam Adolygu. Gall fod angen ymestyn y terfyn amser ar brydiau, a rhoddir gwybod i fyfyrwyr y rheswm/rhesymau dros yr oedi a byddant yn cael eu diweddaru ar gynnydd yr adolygiad.

5.9 Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys yr aelodau canlynol:

- Cadeirydd: aelod uwch o'r staff academaidd wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd i weithredu fel Cadeirydd ar baneli;
- Aelod uwch o'r staff academaidd neu weithdrefnol gyda phrofiad priodol;
- Aelod o Undeb y Myfyrwyr;
- Aelod uwch o'r tîm Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr.

5.10 Bydd pob aelod o'r panel yn deg i'r myfyriwr ac unrhyw dîm rhaglen / aelodau Bwrdd Dyfarnu/Cynnydd cysylltiedig ac ni fydd ganddynt unrhyw ran flaenorol yn yr achos. Bydd y Cyfarwyddwr Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr (neu enwebai penodedig addas) yn enwebu aelod o'r staff Cynllunio Strategol a Gweinyddiaeth Myfyrwyr i weithredu fel Ysgrifennydd.

5.11 Gall y panel bennu:

**a)** Y bydd y penderfyniad a wnaed ar Gam Ffurfiol y weithdrefn yn cael ei gadarnhau a rhoddir rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;

neu

**b)** Na fydd y penderfyniad a wnaed ar Gam Ffurfiol y weithdrefn yn cael ei gadarnhau a bydd y Panel Adolygu yn penderfynu ar ganlyniad a chamau adferol newydd.

**Dogfennaeth**

5.12 Rhoddir gwybod i'r myfyriwr am ddyddiad a threfniadau cyfarfod y Panel Adolygu o leiaf **bum niwrnod gwaith** cyn y cyfarfod. Gwneir y canlynol hefyd:

- Gofynnir i'r myfyriwr a fydd ganddo gwmni yn y gwrandawiad (gweler adrannau 2.9 a 2.10);
- Gofynnir i'r myfyriwr a yw'n dymuno galw unrhyw dystion i'r gwrandawiad. Bydd y Cadeirydd yn pennu a yw'r tystion yn briodol ac os felly, cyfrifoldeb y myfyriwr yw rhoi manylion Gwrandawiad y Panel (yn cynnwys amser a dyddiad) i'r tystion;
- Bydd y Cadeirydd yn pennu pa aelodau o staff y mae gofyn iddynt fynychu cyfarfod y Panel i ddarparu tystiolaeth a rhoddir gwybod i'r aelodau o staff o leiaf **bum niwrnod gwaith** cyn y cyfarfod.

5.13 Rhennir y dogfennau canlynol:

- Y Ffurflen Apelio Academaidd wreiddiol ac unrhyw dystiolaeth ategol;
- Taflen canlyniadau'r modiwl i'r myfyriwr ac amserlen o'r digwyddiadau yn arwain at yr apêl;
- Y Ffurflen Apelio Academaidd Cam Adolygu ac unrhyw dystiolaeth ategol;
- Adroddiad y Swyddog Ymchwilio (lle bo'n berthnasol);
- Llythyr canlyniad y Cam Ffurfiol;
- Copïau o unrhyw lawlyfrau rhaglen a gweithdrefnau perthnasol;
- Unrhyw ddogfennau eraill y gofynnir amdanynt gan Gadeirydd y Panel Adolygu.

Bydd pob dogfen y mae'r Panel yn edrych arni ar gael i'r myfyriwr hefyd.

## Mynychu Gwrandawiad y Panel

5.14 Ar ôl i'r myfyriwr gadarnhau y bydd yn mynychu Gwrandawiad y Panel, os yw'n methu â mynychu ac ni ddarperir rheswm/ymddiheuriad, bydd y gwrandawiad yn parhau yn absenoldeb y myfyriwr.

5.15 Os darperir rhesymau dros absenoldeb mewn da bryd cyn Gwrandawiad y Panel, y Cadeirydd fydd yn penderfynu a ddylid gohirio. Gall fod yn ofynnol i'r myfyriwr ddarparu tystiolaeth o'r rhesymau dros ohirio. Gall y Cadeirydd hefyd ganiatáu i'r myfyriwr fynychu Gwrandawiad y Panel drwy gyfrwng fideo gynadledda (gweler adran 4.2) a/neu gellir gwahodd y myfyriwr i gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'w ystyried.

5.16 Os yw'r myfyriwr wedi cael pob cyfle i fynychu Gwrandawiad y Panel ond ni all / nid yw'n fodlon mynychu, gall y gwrandawiad fynd ymlaen hebddo.

5.17 Rhoddir y dewis i'r myfyriwr gyflwyno ei achos yn Gymraeg neu yn Saesneg, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r iaith a ddewisir.

## Y Weithdrefn yng Ngwrandawiad y Panel

5.18 Fel rheol, bydd y Swyddog Ymchwilio a'r myfyriwr yn bresennol yn y cyfarfod ar yr un pryd a byddant yn aros yn y cyfarfod i glywed pob tystiolaeth gan bob tyst. Fodd bynnag, os yw Cadeirydd y Panel Adolygu yn penderfynu y byddai'n cynorthwyo â chasglu tystiolaeth neu amddiffyn cyfrinachedd, gellir gofyn i'r ddau barti adael tra holir y tystion.

5.19 Gwahoddir y Swyddog Ymchwilio i grynhoi ei ymchwiliad a phenderfyniad ei ganlyniad ar y Cam Ffurfiol. Yna rhoddir cyfle i'r myfyriwr gyflwyno ei reswm/rhesymau dros fynd ymlaen i'r Cam Adolygu.

5.20 Efallai bydd y panel wedyn yn galw ar dystion i'w holi. Gyda chaniatâd y Cadeirydd, caiff y myfyriwr a'r Swyddog Ymchwilio holi'r tystion.

5.21 Ar ôl i'r holl dystiolaeth gael ei chlywed, bydd y myfyriwr a'r Swyddog Ymchwilio yn gadael a bydd y Panel yn trafod yn breifat.

## Penderfyniad y Panel

5.22 Rhoddir gwybod i'r myfyriwr am benderfyniad y Panel Adolygu o fewn **saith diwrnod gwaith** i'r cyfarfod, fel rheol. Lle nad yw'r panel yn gallu dod i benderfyniad neu nid yw'n bosibl glynu at y terfyn amser (er enghraifft, os yw saib yn y gweithdrefnau yn angenrheidiol) rhaid rhoi gwybod i bob parti am y cynnydd a'r rhesymau dros ymestyn y terfyn amser.

5.23 Os yw'r apêl academaidd ar y Cam Adolygu yn cael ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol, bydd y camau adferol a benderfynir gan y panel yn cael eu cyfathrebu i'r myfyriwr yn llythyr canlyniad y Cam Adolygu.

5.24 Os, o ganlyniad i Wrandawiad y Panel Adolygu, mae tystiolaeth y gallai anghysondebau gweithdrefnol (neu eraill) fod wedi effeithio ar fwy na'r myfyriwr o dan sylw, gallai unrhyw gamau adferol a weithredir gael eu hymestyn gan y Cadeirydd i gynnwys myfyrwyr eraill yr effeithir arnynt.

5.25 Os na chadarnhawyd yr apêl academaidd ar y Cam Adolygu, bydd hyn yn cael ei gyfathrebu i'r myfyriwr gyda'r rheswm pam.

5.26 Mae penderfyniad Gwrandawiad y Panel Cam Adolygu yn derfynol ac mae'n cynrychioli diwedd y broses.

## 6 Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA)

6.1 Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch (SDA) yn cynnal cynllun annibynnol ar gyfer adolygu cwynion myfyrwyr. Mae Prifysgol Glyndŵr Wrecsam yn aelod o'r cynllun hwn. Os nad ydych yn fodlon â'r canlyniad, mae'n bosib y gallwch ofyn i'r SDA adolygu eich cwyn. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch gwneud cwyn i'r SDA, beth y gall edrych arno, beth na all edrych arno, a beth y gall ei wneud i gywiro pethau sydd wedi mynd yn anghywir yma: https://www.oiahe.org.uk/students

6.2 Fel rheol, mae angen i chi fod wedi cwblhau'r weithdrefn hon cyn gwneud cwyn i'r SDA. Bydd y Brifysgol yn anfon llythyr atoch chi, sef "Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau", pan fyddwch wedi cyrraedd diwedd ein prosesau ac nid oes camau pellach y gallwch eu cymryd yn fewnol. Os na fydd eich cwyn yn cael ei chadarnhau, bydd y Brifysgol yn cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i chi'n awtomatig. Os bydd eich cwyn yn cael ei chadarnhau'n rhannol neu'n llawn, gallwch ofyn am Lythyr Cwblhau Gweithdrefnau os hoffech un. Cewch ragor o wybodaeth ynghylch Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau, a phryd y dylech ddisgwyl cael un, yma: https://www.oiahe.org.uk/providers/completion-of-procedures-letters

## 7 Hyfforddiant, Monitro ac Adolygu

Darperir hyfforddiant i bob aelod o staff sydd ynghlwm â gweithredu'r weithdrefn. Bydd y gwaith o fonitro'r broses yn cael ei wneud drwy gofnodi achosion unigol a pharatoi Adroddiad Blynyddol nad yw'n cynnwys enwau, a fydd yn cael ei ystyried gan Fwrdd Academaidd y Brifysgol neu bwyllgor priodol o'r Bwrdd Academaidd. Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi data'r achos ac yn cynnwys argymhellion

ar gyfer gwneud gwelliannau, gan gynnwys adnabod cyfleoedd am ragor o hyfforddiant.

| DIAGRAM LLIF Y WEITHDREFN APELIADAU ACADEMAIDD | | |
|---|---|---|
| Ar ôl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, codwch bryderon yn anffurfiol â thîm y rhaglen yn y lle cyntaf, yn benodol lle credir bod tystiolaeth glir o wall gweinyddol y gellid ei unioni heb yr angen am gyflwyno apêl ffurfiol. | Cysylltwch â studentadministration@glyndwr.ac.uk i gael cymorth i unioni gwall | Datrysiad cynnar - cwblhawyd. Dim gweithredu pellach yn ofynnol. |

**Nac ydw:** dilynwch y camau 'cyflwyno' isod ← **A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?** → **Ydw:** dim gweithredu pellach yn ofynnol

| **Cyflwyno** | Dylid cyflwyno Ffurflenni Apelio Academaidd a thystiolaeth ategol fel atodiadau e-bost i studentadministration@glyndwr.ac.uk o fewn 10 diwrnod gwaith i'r canlyniadau yn cael eu cyhoeddi | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Yn dilyn cyflwyno apêl academaidd, byddwch yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o fewn **10 diwrnod gwaith** yn nodi a: | **a)** Yw'r apêl wedi cael ei derbyn i Gam Ffurfiol y broses*<br><br>** Cwblheir apeliadau academaidd a dderbynnir i'r Cam Ffurfiol o fewn 20 diwrnod gwaith fel rheol i ddyddiad yr hysbysiad ysgrifenedig. Os sylwir nad yw'r terfyn amser 20 diwrnod yn bosibl, cynghorir y myfyriwr yn ysgrifenedig, o'r rheswm dros yr oedi a'r terfyn amser diwygiedig ar gyfer cwblhau. Os nad yw opsiwn 1 neu 2 isod yn berthnasol, yna dilynir opsiwn 3.* | **NEU** | **b)** Gwrthodwyd yr apêl, bydd y rhesymau pam a llythyr Cwblhau Gweithdrefnau (COP) yn cael eu cyhoeddi. |

## Os derbynnir i'r Cam Ffurfiol, mae'r tri opsiwn canlynol ar gael:

| **Cam Ffurfiol** | **1.** Ar gyfer achosion sy'n codi ceisiadau am Amgylchiadau Esgusodol newydd, bydd y cais yn cael ei ystyried gan Banel Amgylchiadau Esgusodol. Noder os yw'r apêl yn cael ei chadarnhau neu ei chadarnhau'n rhannol, gallwch ofyn am lythyr COP. Os na chadarnheir yr apêl, bydd COP yn cael ei gyhoeddi'n awtomatig | **2.** Os nad yw opsiwn 1 neu 2 yn berthnasol, penodir Swyddog Ymchwilio diduedd i adolygu'r materion a godir a chymhwyso canlyniad cymesur ac addas. |
|---|---|---|

Parhad dros y dudalen:

## Os penodir Swyddog Ymchwilio:

<table>
<tr><td>Ymchwiliad</td><td>Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cynnal ymchwiliad fel y bernir yn briodol ganddo i'r mater(ion) a godir yn yr apêl academaidd.<br><br>Yn dilyn cwblhau ymchwiliad:<br>• Os yw'r apêl yn cael ei chadarnhau/cadarnhau'n rhannol, rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig o'r canlyniad ac unrhyw gam(au) gweithredu dilynol i'w cymryd.<br>• Os yw'r apêl academaidd yn cael ei chadarnhau/cadarnhau'n rhannol, gallwch ofyn am lythyr COP o fewn chwe wythnos i ddyddiad yr hysbysiad am ganlyniad y cam ffurfiol.<br>• Os <u>na</u> chadarnheir yr apêl academaidd, rhoddir gwybod i chi yn ysgrifenedig a bydd llythyr COP yn cael ei gyhoeddi'n awtomatig.</td></tr>
</table>

**Nac ydw:** dilynwch y camau 'adolygu' isod ⬅ **A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?** ➡ **Ydw:** dim gweithredu pellach yn ofynnol

⬇

<table>
<tr><td rowspan="2">Adolygu</td><td colspan="4">Os ydych yn ystyried bod y mater yn parhau heb ei ddatrys yn dilyn canlyniad y Cam Ffurfiol:<br>• Gallwch ofyn i fynd ymlaen i'r cam adolygu yn amodol ar y seiliau a nodir yn adran 5.1 y weithdrefn hon.<br>• <u>Nid</u> yw anfodlonrwydd â'r canlyniad neu'r datrysiad a gynigir ar y Cam Ffurfiol yn seiliau digonol dros ofyn am adolygiad.<br>• Rhaid cyflwyno cais am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad ar lythyr canlyniad y Cam Ffurfiol.<br>• Dylid cyflwyno ffurflenni a thystiolaeth ategol fel atodiadau e-bost i <u>studentadministration@glyndwr.ac.uk</u>.</td></tr>
<tr><td>Yn dilyn cyflwyno, byddwch yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig o fewn saith diwrnod gwaith yn nodi:</td><td>a) Bod seiliau ar gyfer adolygiad wedi'u nodi a bydd Panel Adolygu yn cael ei ymgynnull</td><td>NEU</td><td>b) Nad oes seiliau ar gyfer adolygiad wedi'u nodi a bydd llythyr COP yn cael ei gyhoeddi</td></tr>
</table>

## Os caiff materion eu symud ymlaen i Banel Adolygu:

<table>
<tr><td rowspan="2">Ymchwiliad</td><td><u>Cyfarfod y Panel Adolygu - Mae penderfyniad Gwrandawiad y Panel Cam Adolygu yn derfynol ac mae'n cynrychioli diwedd prosesau mewnol y Brifysgol.</u><br>Fel rheol, bydd Panel Adolygu (gydag aelodau panel diduedd) yn cael ei ymgynnull o fewn 20 diwrnod gwaith i'r achos yn cael ei dderbyn i'r Cam Adolygu.<br>Bydd pob dogfen flaenorol yn cael ei rhannu â phob parti a gwahoddir chi i fynychu'r cyfarfod o leiaf bum niwrnod gwaith cynt (gyda'r opsiwn o gael cwmni a/neu alw tystion wrth roi gwybod ymlaen llaw i'r panel).</td></tr>
<tr><td>Gall y panel bennu:<br>a) Y bydd y penderfyniad a wnaed ar Gam Ffurfiol y weithdrefn yn cael ei gadarnhau a rhoddir rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;<br>NEU<br>b) Na fydd y penderfyniad a wnaed ar Gam Ffurfiol y weithdrefn yn cael ei gadarnhau a bydd y Panel Adolygu yn penderfynu ar ganlyniad a chamau adferol newydd<br>Rhoddir gwybod i chi am benderfyniad y Panel Adolygu o fewn saith diwrnod gwaith i'r cyfarfod, fel rheol. Lle nad yw'r panel yn gallu dod i benderfyniad neu nid yw'n bosibl glynu at y terfyn amser, rhaid rhoi gwybod i bob parti am y cynnydd a'r rhesymau dros ymestyn y terfyn amser.</td></tr>
</table>

**Nac ydw:** dilynwch y camau 'SDA' isod ⬅ **A ydych chi'n ystyried bod y mater wedi'i ddatrys?** ➡ **Ydw:** dim gweithredu pellach yn ofynnol

| |
|---|
| O fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gallwch gyflwyno cais i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SDA) adolygu ymdriniaeth y Brifysgol o'ch apêl. |